# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **3ydd Gorffennaf 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32233** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2017/18** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2017/18 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2017 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1. Mae gofyn i ni fel Cyngor gyhoeddi adroddiad yn flynyddol sy'n mesur ein perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau.

3.2. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.

3.3. Yn wahanol i adroddiadau blaenorol mae'r Adroddiad (Atodiad 1) wedi ei strwythuro ar sail Adrannau'r Cyngor er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ac mae'n cyfeirio at berfformiad ein cynlluniau gwella ynghyd â'r gwaith dydd i ddydd.

3.4. Nodir bod yr adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol aelodau'r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Fel y flwyddyn ddiwethaf y bwriad eleni yw cyhoeddi'r adroddiad yn yr haf gan ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar y 12fed o Orffennaf.

3.5. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan Gynllun Strategol y Cyngor ers 2013. Bwriad y 4 dudalen 'Taith 5 Mlynedd Cyngor

Gwynedd’ yw rhoi darlun sy’n crynhoi'r hyn a gyflawnwyd dros 5 mlynedd yr ‘hen’ Gynllun Strategol.

3.6. Nodir bod perfformiad materion neu themâu traws adrannol megis diogelu, tlodi a’r iaith Gymraeg wedi ei gynnwys o dan Adrannau perthnasol. O edrych ar ddiogelu yn benodol golyga hyn fod y wybodaeth wedi ei rannu rhwng gwahanol Adrannau – mae materion diogelu plant ac oedolion o fewn y penodau hynny ond mae materion diogelu corfforaethol wedi eu cynnwys ym mhennod Cefnogaeth Gorfforaethol.

3.7. Mae’r adroddiad yn cynnwys rhestr o’r Mesurau Perfformiad sy’n weithredol gan yr Adrannau ar hyn o bryd ac wedi eu cyflwyno i’r cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae ambell fesur ar ôl ble nad yw’r data terfynol ar gyfer 2017/18 ar gael tan wedi diwedd y flwyddyn addysgol bresennol, ac felly byddwn yn adrodd ar y data hwnnw yn yr hydref.

3.8. Eleni mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015). Yn hytrach na chynhyrchu adroddiad ar wahân mae gwybodaeth ynghylch gweithgareddau sy’n cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf yn yr adroddiad. Yn ogystal, ar ddiwedd pob pennod fe ddangosir pa Amcanion Llesiant y mae gwaith pob Adran yn cyfrannu tuag atynt.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Bydd y Cyngor yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2018. Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi. Trefnir hysbysu’r cyhoedd o’r adroddiad drwy gyfathrebu’r adroddiad a’r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

## Barn y Swyddogion Statudol

### Y Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwangeu o safbwynt priodoldeb.

### Y Pennaeth Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda’r awdur i baratoi’r agweddau a ffigyrau ariannol sy’n yr Adroddiad Perfformiad 2017/18 a’i atodiadau, ac rwy’n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol.

Mae’n drawiadol fod y Cyngor wedi cyflawni cymaint ar y ‘daith 5 mlynedd’, tra’n isafu’r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth, dros gyfnod 5 mlynedd Cynllun Strategol 2013/14 – 2017/18.

Ymhellach, mae’r rhan o Adroddiad Perfformiad 2017/18 am yr Adran Cyllid yn nodi bod y Cyngor hefyd wedi llwyddo i gadw gwariant o fewn y gyllideb ym mhob blwyddyn rhwng 2013/14 a 2017/18.